

Dogfen Wybodaeth Ysgolion

‘Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer dysgu a chyflawni’

2022/23

Gwasanaethau Addysg

Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7AZ

Cyfeiriad post: Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

Cyhoeddwyd Medi 2021

CROESO

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Croeso i Ddogfen Wybodaeth Ysgolion Conwy.

Mae dewis yr ysgol iawn i'ch plentyn yn benderfyniad pwysig iawn a gobeithio y bydd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn eich cynorthwyo i wneud penderfyniad hyddysg am yr ysgolion a fydd yn diwallu anghenion eich plentyn orau.



Mae'r ddogfen yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer derbyn eich plentyn/plant i ysgol yng Nghonwy - gan gynnwys manylion am weithdrefnau derbyn ysgol, cludiant ysgol a gwybodaeth gyffredinol arall sy'n ymwneud ag ysgolion. Gobeithio y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi.

Argymhellir hefyd eich bod yn cael copi o brospectws yr ysgol ac yn gwneud trefniadau i ymweld â'ch ysgol leol.

Mae pob rhiant/gwarcheidwad eisiau i'w plentyn ffynnu a chyflawni'n dda yn yr ysgol ac mae presenoldeb a phrydlondeb rhagorol yn bwysig yn hyn. Bydd eich cefnogaeth i sicrhau hyn yn galluogi'ch plentyn i wneud y gorau o'i amser yn yr ysgol.

Ein nod yng Nghonwy yw darparu'r addysg orau yn yr amgylchedd cywir i bob disgybl ddysgu a chyrraedd ei lawn botensial.

Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'ch plentyn yn ei yrfa ysgol.

Dr Lowri Vaughan Brown
Pennaeth Gwasanaeth Addysg

CYNNWYS

1. Gwybodaeth Ysgolion a Pholisi Derbyn
2. Polisiâu Defnyddiol
3. Rhestr Ysgolion

Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflawni ei ddyletswydd o dan Adran 92 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998. Rhydd wybodaeth am ysgolion a Gwasanaethau Addysg CBS Conwy, ac fe gynnwys ddatganiad ar rai o bolisiau'r Cyngor a manylion sylfaenol am bob ysgol.

Gall y rhieni gael copïau o'r ddogfen hon am ddim o Swyddfeydd yr Awdurdod. Gall rhieni ac unigolion eraill gael copïau er gwybodaeth oddi wrth:

- Ysgolion y Cyngor (ar wahân i'r ysgolion meithrin a'r ysgolion arbennig);
- Llyfrgelloedd Cyhoeddus.
- Gwefan Gwasanaethau Addysg CBS Conwy – www.conwy.gov.uk/addysg.

Mae dogfen ar gael ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yn rhoi manylion o'i statws, trefniant a chwricwlwm. Maent ar gael i bobl eraill sy'n dymuno cyfeirio atynt.

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon (ynghyd â dogfennau a gyhoeddir gan y Cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i Ddeddf Addysg 1998) yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ond efallai y ceir newidiadau dilynol yn y gwasanaeth addysg a effeithia ar y trefniadau a'r materion y cyfeirir atynt.

Arolygir ysgolion ar gylchrediad cyson ac mae Adroddiadau Arolwg ar gyfer ysgolion unigol ar gael o'r ysgolion eu hunain a hefyd ar wefan Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – www.estyn.gov.uk

1. GWYBODAETH YSGOLION A PHOLISI DERBYN 2022/2023

1.1 Swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy

Mae swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy yn:
Coed Pella, Conwy Road, Colwyn Bay, LL29 7AZ

Dylid anfon ymholiadau ynghylch addysg gynradd, uwchradd ac arbennig at

Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN.

☎ 01492 575031/032

✉ addysg@conwy.gov.uk

💻 www.conwy.gov.uk/addysg

Gellir cael mwy o gopïau o'r ddogfen hon o'r swyddfa uchod.

1.2 Diffiniadau

'Trefniadau derbyn'	Y drefn, ymarferion a meini prawf gordanysgrifio cyffredinol a ddefnyddir i benderfynu dyrannu lleoedd ysgol.
'Awdurdod Derbyn'	Y corff sy'n gyfrifol am osod a dilyn trefniadau derbyn ysgol. Ar gyfer ysgolion cymunedol a rheoledig gwirfoddol, CBS Conwy yw'r Awdurdod Derbyn; ac ar gyfer ysgolion sylfaen neu gymorthedig gwirfoddol, corff llywodraethol yr ysgol yw'r Awdurdod Derbyn.
'Rhif derbyn'	Nifer y lleoedd ysgol sy'n rhaid i'r Awdurdod Derbyn ei gynnig ym mhob grŵp oedran perthnasol yr ysgol.
'Cyrrff llywodraethol'	Cyrrff llywodraethol ysgolion sy'n gyfrifol am reoli ysgolion gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol. Mae cyrrff llywodraethol ysgolion cymorthedig gwirfoddol a sylfaen yn Awdurdodau Derbyn ar gyfer eu hysgolion.
'Meini prawf gordanysgrifio'	Y rhestr o feini prawf sy'n rhaid i Awdurdod Derbyn eu mabwysiadu ar gyfer ei ysgolion sydd ond yn cael eu defnyddio pan fo ysgol wedi'i gordanysgrifio i asesu pa blant fydd yn cael cynnig lle.

1.3 Mathau o Ysgolion

O dan Restr 2 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 dosbarthwyd ysgolion i gategoriâu newydd [Cymunedol, Gwirfoddol neu Sylfaenol] o fis Medi 1999.

Mae'r mwyafrif yr ysgolion sydd yng Nghonwy yn cael eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae rhai o'r ysgolion cynradd/babanod yn ysgolion Eglwys cymorthedig ac, o ganlyniad, mae ganddynt gysylltiad â chyrff enwadol. Mae pob ysgol uwchradd yn gwbl gyfun ac yn darparu ar gyfer disgyblion/myfyrwyr 11-18 oed. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal Ysgolion Cyfrwng y Gymraeg dynodedig ble mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysg. Hefyd mae nifer o ysgolion ble mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng wrth gyfathrebu a rhoi cyfarwyddiadau. Mae addysg cyfrwng Gymraeg ar gael i bob plentyn.

1.3.1 Ysgolion Cymunedol

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ('Awdurdod Derbyn') yw derbyn i'r ysgolion hyn ac mae'r plant yn cael eu derbyn yn ôl Polisi Derbyn Gwasanaethau Addysg CBS Conwy.

1.3.2 Ysgolion Rheoledig Gwirfoddol

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Betws yn Rhos	Ysgol Porth y Felin
Ysgol Eglwysbach	Ysgol Llangelynnin
Ysgol Llanddoded	Ysgol Llanddulas
Ysgol Babanod Llanfairfechan	Ysgol Pencae
Ysgol San Siôr	Ysgol Ysbyty Ifan

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n cael ei adnabod hefyd fel yr 'Awdurdod Derbyn') yw derbyn i'r ysgolion hyn. Mae polisiau derbyn yr ysgolion hyn yr un fath â pholisiau ysgolion cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

1.3.3 Ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol

Mae ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol yn cael eu cynnal ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac un ai'r Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig.

(a) Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Bodafon, Ysgol San Siôr, Ysgol y Plas

Y Llywodraethwyr yw'r Awdurdod Derbyn i'r ysgolion hyn. Mae copi o'u Polisi Derbyn i'w weld isod (fersiwn Gymraeg i ddilyn).



Ysgol Bodafon -
Admissions Policy 20



Ysgol San Sior -
Admissions Policy 20



Ysgol Y Plas -
Admissions Policy 20

Gellir cael gwybodaeth bellach ar dderbyn unrhyw ddisgybl gan Bennaeth yr ysgol berthnasol.

Dylai unrhyw apelïadau derbyn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig at: Gadeirydd y Llywodraethwyr, yn yr ysgol berthnasol.

(b) Ysgolion yr Eglwys Gatholig

Ysgol y Bendigaid William Davies, Ysgol Sant Joseff

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw derbyn plant i'r ysgolion hyn. Y prif feini prawf ar gyfer derbyn yw aelodaeth ac ymroddiad i'r ffydd Gatholig, er y gall disgyblion eraill nad ydynt yn Gatholigion ac sydd eisïau cael addysg ffydd, gael eu derbyn. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu derbyn yn unol â pholisi'r esgobaeth sy'n cymryd i ystyriaeth ddymuniadau'r rhieni i gael amgylchedd addysgol enwadol ar gyfer eu plant, anghenion plant gwael eu hiechyd neu blant sydd ag anawsterau corfforol neu ddysgu ac anghenion plant sy'n perthyn i leiafrif (e.e. ethnig).

Mae copi o'u Polisi Derbyn i'w weld isod (fersiwn Gymraeg i ddilyn).



Ysgol Blessed
William Davies School - Admissions



Ysgol St Joseph's
School - Admissions

Gellir cael gwybodaeth bellach ar dderbyn unrhyw ddisgybl gan Bennaeth yr ysgol berthnasol.

Dylai unrhyw apelïadau derbyn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig at: Gadeirydd y Llywodraethwyr yn yr ysgol berthnasol.

1.3.4 Ysgolion Sylfaen

Ysgol Pen y Bryn, Ysgol Eirias, Ysgol Bryn Elïan ac Ysgol Emrys ap Iwan

Y Corff Llywodraethol yw'r Awdurdod Derbyniadau i'r ysgolion hyn. Derbynnir plant yn unol â pholisi pob ysgol. Mae copi o'u Polisi Derbyn i'w weld isod (fersiwn Cymraeg i ddilyn).



Ysgol Pen y Bryn
School - Admissions



Ysgol Eirias School -
Admissions Policy 2020



Ysgol Bryn Elïan
School - Admissions



Ysgol Emrys ap
Iwan School - Admissions

Gellir cael gwybodaeth bellach ar dderbyn unrhyw blentyn gan bennaeth yr ysgol berthnasol.

Ystyrir unrhyw apêl yn erbyn gwrthod derbyn gan banel apêl annibynnol o dan drefniadau a wnaed gan Gorff Llywodraethol pob ysgol yn unol ag Adran 94 a 95 Deddf 1998 ac Atodlenni 24 a 25.

1.3.5 Ysgol Arbennig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal un ysgol arbennig, sef Ysgol y Gogarth, Llandudno, sy'n darparu ar gyfer disgyblion gydag anghenion cymhleth na ellir eu cyfarfod

mewn ysgolion cynradd adnoddog. Mae lle fel arfer yn cael ei benderfynu trwy asesiad statudol a datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) yn ôl Cod Ymarfer AAA (2002). Gellir darparu lleoedd asesu os yn briodol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, os nad yw'n bosibl cyfarfod anghenion o fewn y sir, mae'n bosibl ystyried lle y tu allan i'r sir, ar ôl trafod ariannu ar y cyd â Gwasanaethau Plant a'r Bwrdd Iechyd, (Panel Aml Asiantaeth Strategol (PAAS)). Mae penderfyniadau ynghylch lle yn Ysgol y Gogarth a chyfeirio at PAAS yn cael ei wneud gan banel aml asiantaeth Cymedroli ADY y Sir

1.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

1.4.1 Plant gyda datganiad AAA

Nid yw trefniadau derbyn yn gyffredinol yn berthnasol i blant gyda datganiadau o AAA gan fod angen i ysgol a gynhelir a enwyd yn y datganiad dderbyn y plentyn hyd yn oes os bydd yn mynd dros nifer y derbyniadau.

1.4.2 Plant gydag ADY ond heb ddatganiad

Rhaid i awdurdodau derbyn beidio gwrthod derbyn plentyn oherwydd eu bod yn ystyried nad ydynt yn gallu darparu ar gyfer eu ADY. Rhaid iddynt beidio gwrthod plentyn oherwydd nad oes ganddo fo neu hi ddatganiad o AAA neu'n cael ei asesu'n bresennol.

1.4.3 Plant gydag Anableddau

O dan Ddeddf Gwahaniaethu yn Erbyn yr Anabl 1995 a Deddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd ar awdurdodau i beidio gwahaniaethu yn erbyn plant anabl a darpar ddisgyblion. Mae'r ddyletswydd yn rhagddyfalu ac mae'n rhaid i ysgolion wneud pob addasiad rhesymol i ddisgyblion gydag anabledd gan gynnwys hyrwyddo mynediad i'r adeilad a'r cwricwlwm.

1.4.4 Plant gydag Ymddygiad Heriol

Ni ddylai awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar sail ei ymddygiad yn rhywle arall, heblaw pan waharddwyd plentyn ddwywaith.

1.4.5 Disgyblion a Waharddwyd Ddwywaith

Nid oes angen i awdurdodau derbyn gydymffurfio â dymuniad rheini os yw'r plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy ac mae'r gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd o fewn y ddwy flynedd flaenorol (nid yw hyn yn berthnasol i ddisgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu'n 'Dan Ofal' neu 'Dan Ofal' yn flaenorol).

1.4.6 Plant anodd eu lleoli

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn sicrhau fod y plant hyn yn cael lle mewn ysgol addas cyn gyflymed ag sy'n bosib. Gallai hyn o bosibl gynnwys ysgolion sydd eisoes yn llawn. Mae protocol yr Awdurdod ynglŷn â phlant sy'n cyrraedd y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn berthnasol dan yr amgylchiadau hyn.

1.5 Polisi a Threfn Derbyniadau i Ysgolion pan fo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod derbyn

1.5.1 Cyfrifoldebau am Dderbyniadau

- a) Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr Awdurdod Derbyn yn gyfrifol am benderfynu trefniadau derbyn i bob ysgol gynradd gymuned, uwchradd ac arbennig, ac ysgolion rheoledig gwirfoddol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymgynghori'n flynyddol gyda chyrff llywodraethol ysgolion mewn perthynas â derbyniadau.
- b) Mae Cyrff Llywodraethol Ysgolion Sylfaenol a Chymorthedig Gwirfoddol yn gyfrifol am benderfynu trefniadau derbyn i bob ysgol o'r fath. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymgynghori a chydweithio â chyrff llywodraethol ac Awdurdodau Addysg Esgobaethol ynglŷn â derbyniadau.
- c) Bydd trefniadau derbyn cydlynedig yn cael eu hystyried gan y Fforwm Derbyniadau Lleol - ac mae ei drefniadau derbyn yn cynnwys holl Awdurdodau Derbyn y Sir.

1.5.2 Hanfodion y Polisi

- a) Mae'r term 'rhiant/rhieni' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at riant/rhieni corfforaethol, rhiant/ rhieni gwarcheidwad/ gwarcheidwaid a 'gofalwr/ gofawyr'.
- b) Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn cydnabod yn llawn ddewis rhieni yng nghyd-destun ei ddyletswyddau i sicrhau darparu addysg effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau addysgol. Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ehangu niferoedd derbyn ysgol i gyfarfod gofynion nad ydynt yn cydymffurfio â meini prawf derbyniadau (gweler 1.7). Os ystyrir bod angen ehangu ysgol yn sylweddol, caiff y cynigion priodol eu cyhoeddi a dilynir y drefn statudol.
- c) Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn disgyblion o'r oedran priodol [h.y. y grŵp oedran pan fydd disgybl fel arfer yn cael ei dderbyn i ysgol a phan fo'r plentyn o'r un oed ag amrediad oed y grŵp blwyddyn] hyd at rif derbyn pob ysgol heblaw rhai achosion, gweler 1.7 isod.
- ch) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys darpariaeth arbennig yn ymwneud â derbyn plant i ddosbarthiadau babanod a chynradd. Mae'r ddarpariaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau derbyn i gyfyngu maint dosbarthiadau i 30 o blant mewn ysgolion babanod a chynradd. Mae cyfyngiadau'n cael eu rhoi ar rymoedd Paneli Apeliol Annibynnol i ganiatáu apeliadau yn erbyn gwrthod derbyn plentyn i ysgol am resymau maint dosbarth.

- d) Penderfynir Rhif Derbyn pob ysgol yn unol â'r gofynion statudol priodol.
- e) Bydd yr Awdurdod yn gweithredu polisi 'dalgylch', ble bydd darparu lle, staff adnoddau eraill a chludiant ysgol, yn canolbwyntio ar yr ardal ble mae'r disgybl yn byw. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig a gellir gweld mapiau swyddogol yn dangos ffiniau 'dalgyloedd' yn swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy neu mewn ysgolion unigol. Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn 'nalgylch' yr ysgol os bydd mwy o geisiadau na sydd o leoedd mewn ysgol.

Nid yw'n bosibl bob amser gwarantu lle i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.

1.6 Trefn Derbyn

1.6.1 Addysg Gynnar/Feithrin (Cyfnod Sylfaen)

D.S.: Nid yw derbyn i leoliad addysg gynnar (cyn ysgol) a all fod ar safle ysgol yn gwarantu y derbynnir y plentyn i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol honno gan fod hyn yn gylch derbyn ar wahân.

Mae fframwaith statudol y cyfnod sylfaen 'Fframwaith Dysgu Plant i rai 3-7 oed yng Nghymru' yn gwricwlwm dysgu ac addysgu parhaus sy'n dechrau yn y tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed.

Ers Medi 2005, bu'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i sicrhau fod lle meithrin rhan amser ar gael i bob plentyn yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Polisi'r Awdurdod Derbyn mewn perthynas ag addysg feithrin (a ddiffinnir fel darpariaeth ar gyfer plant tair blwydd oed) yw:

a) **Addysg Gynnar (cyn ysgol)**

Yn bresennol mae gan Lywodraeth Cymru darged i gynnig lleoedd addysg gynnar hanner amser a ariennir i blant o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. I gydymffurfio â'r targed hwn, mae'r Awdurdod yn darparu lleoedd addysg gynnar a ariennir o fewn lleoliadau sector gwirfoddol a phreifat a gymeradwywyd ar ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed h.y. pen-blwydd yn nhymor yr hydref – darpariaeth yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf; pen-blwydd yn nhymor y gwanwyn – darpariaeth yn ystod tymor yr haf.

Mae darpariaeth yn seiliedig ar 5 x sesiwn 2 awr yr wythnos i bob plentyn neu 4 sesiwn 2.5 awr bob wythnos i bob plentyn.

Bydd plant sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed yn ystod tymor yr haf yn dechrau darpariaeth feithrin yn yr ysgol ym Medi ar gyfer eu lle tair oed a ariennir.

Am wybodaeth ar ddarpariaeth addysg gynnar mewn lleoliadau a gymeradwywyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cysylltwch â Chanolfan Lôn Hen Ysgol ar 01492 577850.

b) **Addysg Feithrin**

Nid yw derbyn i ddosbarth neu uned feithrin mewn ysgol fabanod neu gynradd benodol yn gwarantu y derbynnir y plentyn i'r ysgol honno ar gyfer addysg amser llawn. Bydd angen gwneud cais pellach cyn derbyn i'r dosbarth derbyn (addysg llawn amser).

- (i) Darperir addysg feithrin ar sail 0.5 yn holl ysgolion yr Awdurdod sy'n darparu ar gyfer ystod oedran 3-7 a 3-11.
- (ii) Mae darpariaeth yn seiliedig ar 5 x sesiwn 2 awr yr wythnos i bob plentyn.
- (iii) Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i le yn y meithrin ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (Medi) os yw'r plentyn wedi cael ei ben-blwydd/phen-blwydd yn dair oed ar neu cyn 31 Awst. Efallai y gofynnir i rieni ddarparu dogfennau swyddogol yn dangos dyddiad geni eu plentyn. Yn ôl y gyfraith nid oes angen i blentyn gychwyn yn yr ysgol hyd gychwyn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed.
- (iv) Gellir gwneud ceisiadau derbyn dechreuol i bennaeth yr ysgol neu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i fynegi eu dewis ar gyfer lleoliad feithrin.

Gall rhieni fynegi dewis am unrhyw ysgol, fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn ôl y meini prawf a restrwyd yn 1.7.
- (v) Mae ceisiadau ar gyfer derbyn i'r ysgol feithrin yn agored o dymor yr hydref cyn y flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn gymwys i gychwyn yn yr ysgol feithrin.
- (vi) Bydd unrhyw ddewis a fynegwyd gan riant yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd yn 1.7 isod. Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol a ddymunir os bydd yr Awdurdod yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni.
- (vii) Pe bai'r Awdurdod yn methu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol a ddewiswyd gan y rhieni, bydd y rhieni'n cael eu hysbysu mewn ysgrifen ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus a byddant yn cael cynnig lle i'w plentyn yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael.
- (viii) Nid oes gan rieni hawl i apelio o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 os byddant yn aflwyddiannus gyda chael lle meithrin.

1.6.2 **Derbyn i Ysgolion Cynradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy pan fo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Derbyn**

- a) Darperir lle amser llawn i blant o ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn bedair oed ar 31 Awst neu cyn hynny. Yn ôl y gyfraith nid oes angen i blentyn gychwyn yn yr ysgol hyd gychwyn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Dylai

rhieni fod yn ymwybodol y gellir oedi derbyn hyd y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Fodd bynnag, ni fydd rhieni yn gallu oedi mynediad y tu hwnt i gychwyn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd cais ar ei chyfer. Rhaid parhau i gyflwyno ffurflenni cais erbyn y dyddiad a nodwyd gan yr ALI hyd yn oed os yw mynediad wedi'i oedi.

- b) Bydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i nodi eu dewis o ysgol gynradd neu iau ar gyfer y plentyn. Gall rhieni ddewis unrhyw ysgol, ond bydd ysgolion yn blaenoriaethu ceisiadau trwy ddilyn y meini prawf a nodir yn Adran 1.7. Dylid nodi fodd bynnag, y bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu pan fo gofynion Polisi Cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu bodloni.
- c) Bydd unrhyw ddewis a fynegwyd gan riant yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd yn 1.7. Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol a ddymunir os bydd yr Awdurdod yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni.
- ch) Pe bai'r Awdurdod yn methu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol a ddewiswyd gan y rhieni, bydd y rhieni yn cael eu hysbysu mewn ysgrifen ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus a byddant yn cael eu darparu gyda manylion yr ysgol briodol agosaf sydd â lleoedd ar gael. Hefyd, bydd rhieni'n cael gwybod am eu hawl i apelio at Banel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod derbyn i'r ysgol a ddewiswyd.
- d) Nid yw'n bosibl bob amser gwarantu lle i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.
- dd) Felly gall yr ymgeisydd benderfynu:
 - i. Derbyn y lle a gynigir yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael;
 - ii. Apelio;
 - iii. Apelio a derbyn y lle a gynigir yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael;
 - iv. Gwneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis ac apelio; neu
 - v. gwneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis yn unig.

Os yw'r ymgeisydd yn dymuno apelio at y Panel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod cais, bydd yr ymgeisydd yn cael o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod ysgol) o'r dyddiad hysbysu y bu'r cais yn aflwyddiannus i baratoi a chyflwyno apêl ysgrifenedig i'w ystyried gan y Panel Apêl Annibynnol

- e) Rhaid i'r apêl [y dylid ei hanfon at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)] gael ei hysgrifennu ar bapur gan nodi'r rhesymau am yr apêl. Mewn apêl, bydd yr Awdurdod yn cychwyn proses apêl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998. Bydd y rhiant, gyda ffrind, os dymunir, yn cael cyfle i ymddangos ger bron Panel Apêl Annibynnol. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.
- f) Dylai apeliadau i ysgolion cymorthedig gwirfoddol a sylfaen gael eu gwneud at Gadeirydd y Llywodraethwyr d/o yr ysgol berthnasol.

Trosglwyddo o Ysgolion Babanod i Ysgolion Iau

Pan fo ysgolion babanod ac iau ar wahân ond 'wedi eu paru', rhaid i drefniadau a gyhoeddwyd ei gwneud yn glir y bydd angen i rieni plant mewn ysgol babanod wneud cais am le mewn ysgol iau ac nad yw mynychu ysgol babanod yn gwarantu lle mewn ysgol iau.

1.6.3 Derbyn i Ysgol Uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Derbyniadau

- a) Fel arfer caiff disgyblion eu trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed.
- b) Bydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i nodi eu dewis o ysgol uwchradd. Gall rhieni ddewis unrhyw ysgol, ond bydd ysgolion yn blaenoriaethu ceisiadau trwy ddilyn y meini prawf a nodir yn Adran 1.7. Dylid nodi fodd bynnag, y bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu pan fo gofynion Polisi Cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu bodloni.
- c) Bydd unrhyw ddewis a fynegwyd gan riant yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd yn 1.7. Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol a ddymunir os bydd yr Awdurdod yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni.
- ch) Pe bai'r Awdurdod yn methu cynnig lle i'r plentyn yn yr ysgol a ddewiswyd gan y rhieni, bydd y rhieni yn cael eu hysbysu ar bapur ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus. Bydd angen i rieni wneud cais am le mewn ysgol arall. Hefyd, bydd rhieni yn cael gwybod am eu hawl i apelio at Banel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod y cais.
- d) Felly gall yr ymgeisydd benderfynu:
 - i. Apelio;
 - ii. Gwneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis a symud ymlaen i apelio; neu
 - iii. Wneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis yn unig

Os yw'r ymgeisydd yn dymuno apelio at y Panel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod cais, bydd yr ymgeisydd yn cael o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod ysgol) o'r dyddiad hysbysu y bu eu cais yn aflwyddiannus i baratoi a chyflwyno apêl ysgrifenedig i'w ystyried gan y Panel Apêl Annibynnol

- dd) Rhaid i'r apêl [y dylid ei hanfon at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)] gael ei hysgrifennu ar bapur gan nodi'r rhesymau am yr apêl. Mewn apêl, bydd yr Awdurdod yn cychwyn proses apêl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998. Bydd y rhiant, gyda ffrind, os dymunir, yn cael cyfle i ymddangos ger bron Panel Apêl Annibynnol. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.

1.6.4 Dyddiadau perthnasol

- a) Bydd y drefn derbyn flynyddol ar gyfer yr oedran perthnasol yn cynnwys y camau canlynol:

Derbyn i:	Ffurflenni ar gael i rieni:	Dyddiad cau dychwelyd ffurflenni:	Dyddiad hysbysu llwyddiant y cais:
Uwchradd	06/09/2021	05/11/2021	01/03/2022
Cynradd	27/09/2021	19/11/2021	19/04/2022
Derbyn	27/09/2021	19/11/2021	19/04/2022
Meithrin	27/09/2021	18/02/2022	06/05/2022

Ceisiadau y tu allan i'r cylch derbyn arferol

Caiff rhieni sy'n mynegi dymuniad ar wahân i oedran arferol y derbyniadau (e.e. meithrin, derbyn, iau, uwchradd) yr un cyfle â'r rhai a amlinellir yn y Meini Prawf gormod o geisiadau (Gweler 1.7 isod).

Pan fo cais y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn cael ei wneud beth amser cyn y dyddiad cychwyn y gofynnwyd amdano (ee os na fydd y disgybl yn symud i mewn i'r ardal am sawl mis) bydd yr Awdurdod yn ystyried amgylchiadau'r achos unigol yn ofalus, a'r cyfnod a fyddai'n rhesymol i gadw lle ar agor i'r disgybl. Ni fyddai yn arferol yn cael ei ystyried yn briodol i gadw lle ar agor am fwy na thymor ysgol.

1.6.5 Sut i wneud cais am le mewn ysgol

- (a) Gellir cwblhau ceisiadau derbyn –
- Ar-lein yn www.conwy.gov.uk/derbyniadau
 - Drwy lawr lwytho **ApConwy** drwy'r siop Ap briodol ar gyfer iOS neu Android a chwblhau ffurflen ar yr Ap
 - Gellid hefyd gael ffurflenni papur o unrhyw ysgol yng Nghonwy neu gan Wasanaethau Addysg Conwy Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN.

Mae'n bwysig bod rhieni'n dychwelyd eu ffurflenni cais erbyn y dyddiad cau cywir. Os bydd ffurflen yn cael ei hanfon trwy'r post, argymhellir cael prawf postio gan y Swyddfa Bost.

1.6.6 Ceisiadau hwyr

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a geir erbyn y dyddiad cau, **oni bai** fod yr Awdurdod yn ystyried fod rhesymau da dros gyflwyno'r cais yn hwyr. **Rhaid** cynnwys y rhesymau hyn ar y ffurflen gais.

Os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio, bydd unrhyw geisiadau hwyr a geir heb resymau da yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a geir erbyn y dyddiad cau, a byddant yn cael eu gosod yn ôl y meini prawf derbyniadau. Bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr gyda'r safleoedd uchaf hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu.

Rhaid i blant gyda datganiadau o AAA sy'n enwi ysgol benodol gael eu derbyn waeth pryd y cafwyd eu cais.

Os na fydd yn bosib bodloni dewis cyntaf y rhiant oherwydd gordanysgrifio, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod.

1.7 Meini Prawf Derbyniadau [Meini Prawf Gormod o Geisiadau]

1.7.1 Felly, mae meini prawf derbyn i ysgolion yr Awdurdod yn amodol ar:

- i) y ddyletswydd i gydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fo rhif derbyn wedi'i gyrraedd.
- ii) y ddyletswydd i sicrhau bod diddordebau Plant dan Ofal a Phlant Dan Ofal yn flaenorol yn cael eu hamddiffyn ac yn cael blaenoriaeth dan feini prawf gordanysgrifio pob ysgol;
- iii) y ddyletswydd i sicrhau bod disgybl gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei dderbyn i'r ysgol a enwyd yn y datganiad;
- iv) yr oblygiad i sicrhau bod disgyblion gyda gydag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol yn cael eu derbyn i ysgol neilltuol;
- v) yr oblygiad i gydymffurfio â chyfyngu maint dosbarthiadau babanod;
- vi) yr oblygiad i sicrhau darparu addysg effeithlon a defnydd effeithlon o adnoddau; ac unrhyw gyfyngiad all godi mewn perthynas ag ysgol arbennig yn deillio o ddefnyddio rhif derbyn, sef y nifer o blant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol.
- vii) unrhyw gyfyngiad all godi mewn perthynas â gordanysgrifio. Bydd blaenoriaeth o fewn pob categori yn cael ei benderfynu trwy bellter cerdded diogel o'r ysgol. Bydd yr Awdurdod Derbyn yn defnyddio meddalwedd yr Awdurdod Lleol a fydd yn cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd wrth i ddatblygiadau technolegol gael eu gwneud i gyfrifo'r pellter mewn milltiroedd o'r cartref i'r ysgol. Mae'r llwybr gerdded fyrraf wedi ei mesur o bwynt mynediad ffordd gyhoeddus gydnabyddedig *agosaf* i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd hyd giât prif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Derbyn i dderbyn plentyn i ysgol ar gyfer addysg mewn dosbarth babanod i gydymffurfio â dymuniad a fynegwyd gan riant pan fyddai derbyn y plentyn yn peryglu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau oherwydd 'camau cynhwyso', camau fyddai eu hangen i sicrhau bod y cyfyngiad dosbarthiadau yn cael ei gyfarfod (hynny yw, ni ddylai fod yna fwy na 30 disgybl mewn dosbarth).

- 1.7.2 Bydd meini prawf gordanystrifio yn y drefn ganlynol yn cael ei defnyddio pan fo mwy o rieni wedi mynegi dymuniad am ysgol na sydd o le mewn blwyddyn arbennig:

Dosbarth A	'Plant dan Ofal' a 'Phlant Dan Ofal yn Flaenorol'.
Dosbarth B	Plant sydd ag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol sydd ym marn yr Awdurdod Derbyn yn cyfiawnhau derbyn i ysgol arbennig (gweler 1.7.3.2).
Dosbarth C	Disgyblion sy'n byw yn 'nalgylch' yr ysgol.
Dosbarth D	Disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol neu sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner.
Dosbarth E	Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner.
Dosbarth F	Rhai sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sydd ddim yn deilwng ar gyfer dim o'r dosbarthiadau uchod.

- 1.7.3 Manylion pellach ynglŷn â meini prawf derbyniadau isod:

1.7.3.1 **Plant dan Ofal**

Mae dyletswydd ar Awdurdodau Derbyn i dderbyn 'Plant Dan Ofal' neu 'Blant oedd Dan Ofal yn Flaenorol' hyd yn oed os byddai hyn yn arwain at fynd dros y rhif derbyn yn unrhyw un o ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

1.7.3.2 **Anghenion Meddygol**

Gall Awdurdodau Lleol roi blaenoriaeth uwch i blant neu deuluoedd sydd ag angen meddygol (er enghraifft pan fo gan un neu'r ddau riant neu'r plentyn anabledd a allai wneud teithio i ysgol sy'n bellach i ffwrdd yn anodd).

Er mwyn i geisiadau gael eu hystyried o dan y meini prawf hyn, byddai'r Awdurdodau Derbyn angen tystiolaeth ategol annibynnol sy'n nodi'r rhesymau penodol pam mai'r ysgol dan sylw yw'r ysgol fwyaf addas, a'r anawsterau a achosir os byddai rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall. Bydd tystiolaeth o'r fath yn cael ei ystyried gan banel cymedroli ADY aml ddisgyblaeth.

Byddai'r dystiolaeth ategol annibynnol a ystyrir yn briodol yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) y canlynol:

- (a) Llythyr/adroddiad gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig) megis meddyg, pediatriydd cymunedol, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, seicolegydd, seicolegydd addysg, seiciatriydd neu ymgynghorydd arbenigol) a ddylai fod yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain o gyflwr ac amgylchiadau'r rhiant / plentyn;
- (b) Llythyr/adroddiad gan weithiwr proffesiynol gwaith cymdeithasol cofrestredig a ddylai fod yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain o gyflwr ac amgylchiadau'r rhiant / plentyn;

D.S. Ni fydd Awdurdodau Derbyn yn rhoi blaenoriaeth uwch i blant o dan y meini prawf hyn os na chyflwynwyd y dystiolaeth gefnogi.

1.7.3.3 **Dalgylch**

Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig a gellir gweld mapiau swyddogol yn dangos y ffiniau yn swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy neu mewn ysgolion unigol. Os bydd mwy o ddisgyblion yn gwneud cais i ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw o fewn y 'dalgylch'.

Nid yw'n bosibl bob amser gwarantu lle i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.

1.7.3.4 **Brodyr a Chwirydd**

Mae brawd neu chwaer yn cael eu dehongli fel brawd/chwaer lawn, hanner neu lys frawd/chwaer (boed trwy briodas neu'n cydfyw, wedi'u mabwysiadu neu feithrin

Er mwyn i frawd/chwaer gael ei ystyried:

- Rhaid iddo/iddi fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r ymgeisydd pan fo'r cais yn cael ei wneud.
- Rhaid i'r brawd/chwaer hynaf fod o oed ysgol statudol ac yn parhau ar gofrestr yr ysgol y gofynnir amdani ble mae gan y plentyn iau hawl i'w mynychu.

Wrth ystyried brodyr a chwirydd rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i aml enedigaethau (e.e. efeilliaid neu dripled).

Os bydd nifer y ceisiadau sy'n weddill yn parhau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael ar ôl dilyn y meini prawf gordanysgrifio, bydd y llefydd sydd ar ôl yn cael eu dyrannu yn ôl y "meini prawf – Pellter o'r Ysgol" isod.

1.7.4 **Meini prawf pellter: Pellter rhwng y cartref a'r ysgol**

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn defnyddio meddalwedd dewisol yr Awdurdod Lleol, a all o bryd i'w gilydd, gael ei adolygu, wrth i ddatblygiadau technolegol gael eu gwneud, i gyfrifo pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r llwybr gerdded fyrraf wedi ei mesur o bwynt mynediad ffordd gyhoeddus gydnabyddedig agosaf i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd hyd at giât prif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol hyd y bydd y rhif derbyn wedi'i gyrraedd.

Bydd yr Awdurdod Derbyn ond yn derbyn cyfeiriad cartref y disgybl, ac nid er enghraifft cyfeiriad ffrind neu berthynas. Gofynnir i rieni ddarparu cadarnhad o'u cyfeiriad cartref pan ddilynnir y meini prawf pellter.

Cynghorir rhieni y gellir tynnu lle ysgol yn ôl os yw'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol, a gallai hyn olygu na fyddai lle ar gael yn eu hysgol agosaf nesaf.

Pan dynnir lle yn ôl, gellir ail gyflwyno'r cais ac os y'i gwrthodir, mae gan y rhiant hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Os yw cyfeiriad cartref eich plentyn yn newid cyn diwedd y cyfnod dyrannu, rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Derbyn.

Os na all dau riant gytuno ar yr ysgol/ysgolion o'u dewis, rhaid iddynt geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, a phe bai angen, gorchymyn llys priodol, cyn cyflwyno eu ffurflen gais i'r Awdurdod Derbyn. Bydd yr Awdurdod Derbyn ond yn derbyn **un** cais ar gyfer bob plentyn.

Os ar ôl dilyn y meini prawf gordanysgrifio mae'r Awdurdod yn parhau i fethu dyrannu lle i'r plentyn yn yr ysgol y mae'r rhiant wedi mynegi dymuniad, bydd yr Awdurdod yn cynnig lle i'r plentyn yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael.

1.8 Plant pobl sydd yn y Lluoedd Arfog y DU a Gweision y Goron (gan gynnwys Diplomyddion)

Bydd teuluoedd pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron yn cael eu symud o gwmpas y DU ac o dramor yn aml. Bydd lleoedd ysgol yn cael eu dyrannu i blant a'u teuluoedd cyn dechrau'r flwyddyn ysgol sydd ar y gorwel os ceir llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn nodi'r dyddiad dychwelyd.

1.9 Plant Sipsiwn a Theithwyr

Bydd plant o'r gymuned deithio sipsiwn neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg Teithwyr Sipsiwn'.

1.10 Plant o dramor

Rhaid i awdurdodau derbyn drin ceisiadau ar gyfer plant sy'n dod o dramor yn Unol â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu reolau'r Swyddfa Gartref ar gyfer gwladolion nad ydynt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

1.11 Dymuniad Iaith

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod rhieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn cael cyfle i fynegi eu dewis. Mae anghenraid i bob ysgol gyflwyno'r Gymraeg o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol oni bai i'r ysgol ofyn am eithriad. Nid oes yr un ysgol yng Nghonwy wedi gofyn am eithriad.

1.12 Dymuniad Enwadol

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sicrhau bod rhieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysg mewn ysgol enwadol yn cael cyfle i fynegi eu dewis o ysgol o'r fath. Mae derbyniadau i ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol yn amodol i'r meini prawf a sefydlwyd gan gyrff llywodraethol yr ysgolion hyn. Hefyd, fel y nodir yn 1.3.3 uchod, mae meini prawf ychwanegol yn weithredol yn nhermau derbyn i ysgolion cymorthedig ac mae'r rhain wedi eu nodi ym Mholisi Derbyn yr ysgol.

1.13 Rhestrau aros

Yn ystod y cylch derbyn arferol

Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, pan fo ceisiadau ar gyfer ysgol benodol wedi cyrraedd y rhif derbyn, bydd unrhyw ymgeisydd aflwyddiannus yn aros ar restr aros gordanysgrifio hyd 30 Medi 2017. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros yn weithredol, a cyn i unrhyw apeliadau gael eu clywed, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar yr adeg hynny, yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio.

Ni fydd rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant yn seiliedig ar y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Fodd bynnag, nid yw rhoi enw'r plentyn ar y rhestr aros yn gwarantu lle yn yr ysgol yr ymgeisiwyd amdani ac nid yw'n effeithio ar hawl y rhieni i apelio.

Tu allan i'r cylch derbyn arferol

Pan wneir cais i ysgol sydd wedi ei gordanysgrifio y tu allan i'r cylch derbyn arferol, bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael cyfle i apelio. Os yn aflwyddiannus, bydd angen i rieni wneud cais i ysgol arall. Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor.

1.14 Addysg wedi oed ysgol statudol – derbyn i'r chweched dosbarth

Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol berthnasol. Fodd bynnag, bydd ceisiadau gan ddisgyblion o ysgolion eraill yn cael eu hystyried hefyd, gan ddibynnu os bydd lle ar gael. Mae hawl gan rieni i apelio os gwrthodir lle i'w plentyn.

- i) O dan Adran 8(3) Deddf Addysg 1996, gosodwyd oed gadael ysgol newydd. Y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fo'r disgybl yn cyrraedd 16 oed yw hwn.
- ii) Hyd y dyddiad hwnnw:
 - Rhaid i rieni a gwarcheidwaid sicrhau bod eu plant yn cymryd rhan mewn addysg yn yr ysgol neu arall;
 - Rhaid i gynghorau lleol sicrhau darparu addysg briodol;
 - Ni all cyflogwyr gyflogi plant yn amser llawn;
 - Ni chaiff darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant amser llawn a noddir gan y Llywodraeth.

1.15 Derbyn Disgyblion o du allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bydd plant sy'n byw y tu allan i Gonwy yn cael eu derbyn yn amodol i'r un meini prawf a osodwyd ar gyfer disgyblion sy'n byw yng Nghonwy (gweler 1.7.3). Dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) a Phennaeth yr ysgol.

1.16 Derbyniadau i Ysgolion nas cynhelir gan yr ALL

- (a) Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drefniadau arbennig gydag Awdurdodau Derbyniadau Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Gwynedd i ystyried ysgol mewn sir arall a ddewiswyd gan rieni.
- (b) Gall rhieni sy'n dymuno ysgol a gynhelir gan awdurdod derbyn heblaw CBS Conwy wneud hynny ar y ffurflen dymuniad a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy. Bydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy yn cysylltu â'r ysgolion hynny'n uniongyrchol.
- (c) Mewn achosion o'r fath ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am dalu costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol oni bai fod trefniadau arbennig. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ceisio trefniadau arbennig gydag awdurdodau cyfagos ar gyfer disgyblion ble mae eu hysgol briodol agosaf y tu allan i ffiniau'r sir.

1.17 Newid Ysgol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy ar adegau gwahanol i'r cyfnod arferol

- a) Dylid cysylltu â Phennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) cyn gynted ag y bo modd mewn achosion arbennig, ble'r ystyrir bod derbyn cynnar neu hwyr i addysg uwchradd yn ddoeth gan y rhieni a'r ysgol gynradd.
- b) Rhaid i rieni sy'n dymuno trosglwyddo o un ysgol a gynhelir i un arall ar amser gwahanol i'r amser trosglwyddo arferol drafod y mater yn gyntaf gyda dau bennaeth yr ysgolion perthnasol. Fe all y penaethiaid ymgynghori gyda swyddogion Gwasanaethau Addysg CBS Conwy. Bydd yn rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethol sy'n derbyn y disgybl drefnu i dderbyn y disgybl yn unol â pholisi derbyniadau'r Awdurdod Derbyn.
- c) Fel arfer, ni all newidiadau gael eu cyflawni ond ar ddechrau tymor ysgol, ond fe all newidiadau sy'n codi o amgylchiadau arbennig ddod i rym yn ystod y tymor ysgol. Dan amgylchiadau arferol bydd y cais yn cael ei drin o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag yw'r cynharaf. Cynghorir rhieni yn gryf, i beidio â throsglwyddo disgyblion yn ystod blwyddyn ysgol rhag amharu ar gwrs addysg eu plant.

1.18 Trosglwyddo wedi'i Reoli

Mewn amgylchiadau eithriadol pan fo lle disgybl mewn ysgol arbennig o dan fygythiad gall Gwasanaethau Addysg CBSC, gyda chaniatâd y rhieni drafod symud i ysgol arall.

2. POLISIAU DEFNYDDIOL

Gweler isod wybodaeth am:

- Bolisi Cludiant;
- Budd-daliadau Lles Addysg;
- Presenoldeb Ysgol;
- Arholiadau a Phrofion Cyhoeddus;
- Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Addysgol Ychwanegol;
- Polisi Iaith a Dwyieithrwydd;
- Gweithdrefn Cwynion.

Cludiant i Ddysgwyr o dan 16 oed

Fel darpariaeth leiaf, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu cludiant am ddim:

- pan fo plentyn o oedran ysgol statudol, o dan 11 oed, yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- pan fo plentyn o oedran ysgol statudol, dros 11 oed, yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf.

Mae fersiwn llawn o'r Polisi cyfredol ar gael ar ein gwefan [Cludiant am ddim i ysgol / coleg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#) neu trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Addysg ar 01492 575595.

I gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd trafnidiaeth, cysylltwch â Transportapplications@conwy.gov.uk neu trwy gysylltu â'r Swyddog Trafnidiaeth Addysg ar 01492 575595 sy'n gyfrifol am asesu ceisiadau a/neu'r tîm Cludiant Cartref i'r Ysgol Home2school@conwy.gov.uk ar 01492 577899 o ran trefniadau cludiant.

Trefniadau Gwneud Cais

Gall rhieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno gwneud cais am gludiant cartref/ysgol am ddim wneud cais trwy ymweld â'n gwefan [Cludiant am ddim i ysgol / coleg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#) neu drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Addysg ar 01492 575595 os oes angen copi papur arnynt.

Ar ôl ei dderbyn, mae'r Swyddog Trafnidiaeth yn asesu os yw'r cais yn gymwys neu ddim ac yn cymeradwyo neu'n gwrthod yn unol â hynny.

Os cânt eu cymeradwyo, hysbysir rhieni trwy lythyr a bydd y tîm Cartref i'r Ysgol yn gwneud y trefniadau angenrheidiol, gan ystyried, cost-effeithiolrwydd, llwybrau presennol a threfniadau cytundebol trafnidiaeth cyfredol.

Os yw cais yn aflwyddiannus, hysbysir y rhieni/gwarcheidwaid trwy lythyr. Sylwch mai cyfrifoldeb rhieni/gwarcheidwaid yw gwneud trefniadau ar gyfer cludo eu plant yn ddiogel yn ôl ac ymlaen i'r ysgol (pan nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol) ac yn ôl ac ymlaen i arosfannau bysiau a phwyntiau codi.

Cludiant i Ddysgwyr 16-19 oed

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr 16 oed hyd at 19 oed, sy'n byw yn sir Conwy sydd mewn addysg amser llawn ac sy'n byw dros 3 milltir o'r sefydliadau addysgol addas agosaf fel y nodwyd yn y polisi Trafnidiaeth - [Cludiant am ddim i ysgol / coleg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

Bydd yr Awdurdod yn asesu a yw sefydliad yn darparu amrywiaeth rhesymol o gyrsiau sy'n addas i alluoedd, tueddfryd ac anghenion disgybl unigol. Ni fydd cludiant ond yn cael ei ddarparu i sefydliad addysgol nad yw'r agosaf os, ym marn yr Awdurdod, bod amrywiad arwyddocaol rhwng cwrs y disgybl a'r cwrs sydd ar gael yn y sefydliad agosaf.

Dylai'r cyrsiau fod ar lefel uwch na'r un blaenorol; e.e. ni fyddai ail eistedd arholiad TGAU fel arfer yn cymhwyso am gymorth.

Disgwylir i ddisgyblion wneud eu trefniadau teithio eu hunain i'r man codi pan ystyrir bod y pellter rhwng y cartref a'r man codi'n rhesymol.

Budd-daliadau Lles Addysg

Prydau Ysgol am Ddim

Mae Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer disgyblion sy'n mynd i ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm*
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm*
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydych yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw incwm blyneddol eich aelwyd, yn unol ag asesiad CThEM, yn uwch na £16,190
- Cefnogaeth o dan Rhan VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Elfen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth Cysylltiedig ag Incwm*
- Credyd Treth Gwaith parhaus – y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol gydag enillion net blyneddol o ddim mwy na £7,400 (Ebrill 2019).

(*Mae disgyblion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Cynhwysol gyda chyfyngiad enillion net blyneddol o £7,400 drwy eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys)

Os ydych yn derbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd ar gyfer un o'ch plant oherwydd eich bod yn derbyn Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth yn seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant Pensiwn, byddwch yn parhau i dderbyn hawl ar gyfer y plentyn hwnnw nes mis Rhagfyr 2023 hyd yn oed os yw eich amgylchiadau'n newid. Bydd angen i chi ein hysbysu ni fodd bynnag os yw eich plentyn yn gadael, neu'n newid ysgol cyn y dyddiad hwnnw.

Dylai rhieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim wneud cais ar y ffurflen briodol sydd ar gael ar ein gwefan <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx> neu gysylltu â'r Tîm Budd-daliadau ar y rhif ffôn 01492 576491.

Grant Gwisg Ysgol/Grant Datblygu Disgyblion (Mynediad)

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion (Mynediad) ac mae cyfraddau 2021/22 fel a ganlyn:

- £125 ar gyfer disgyblion Derbyn mewn ysgol gynradd
- £125 ar gyfer disgyblion Blwyddyn1, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 5 mewn ysgol gynradd
- £200 ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd
- £125 ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 8 i 11 mewn ysgol uwchradd

Disgyblion 4, 5, 7, 9 ac 11 i 15 oed mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion.

Nod y Grant Datblygu Disgyblion (Mynediad) yw helpu pobl brynu gwisg ysgol a dillad chwaraeon, offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau'r ysgol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored ac offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm fel dylunio a thechnoleg.

Bydd y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5 a Blynnyddoedd 7 i 11 ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Cyngor ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid sydd â phlant yn mynd i ysgol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy ac sy'n derbyn unrhyw beth o'r rhestr isod.

- Cymhorthdal Incwm*
- Lwfans Ceisio Gwaith Cysylltiedig ag Incwm*
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth Cysylltiedig ag Incwm*
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad ydych yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw incwm blyneddol eich aelwyd, yn unol ag asesiad CThEM, yn fwy nag £16,190.

- Credyd Treth Gwaith parhaus – y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith
- Elfen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Cynhwysol â chyfyngiad enillion net o £7,400 (Ebrill 2019)*

(*Mae disgyblion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Cynhwysol drwy eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys)

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion (Mynediad) hefyd ar gael bob blwyddyn i blant sy'n derbyn gofal. Gellir gwneud cais yn uniongyrchol drwy'r Adran Addysg. Gwnewch gais ysgrifenedig yn uniongyrchol i:

Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Gwasanaethau Addysg,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1,
Conwy, LL30 9GN.

Caiff grantiau eu talu trwy drosglwyddiad BACS i'ch cyfrif banc neu trwy daliad siec, ac fe allant fod yn daladwy mewn perthynas â mwy nag un plentyn.

Dylai rhieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno gwneud cais am Grant Gwisg Ysgol/Grant Datblygu Disgyblion (Mynediad) wneud cais ar y ffurflen briodol sydd ar gael ar ein gwefan <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx> neu gysylltu â'r Tîm Budd-daliadau ar y rhif ffôn 01492 576491.

Llefrith am Ddim

Efallai y rhoddir traean peint o lefrith y dydd am ddim i ddisgyblion Meithrin, Derbyn a Chyfnod Allweddol 1 (yn ôl dewis y Llywodraethwyr).

Polisi Codi Tal a Pholisi Rhyddhad rhag talu ar gyfer Teithiau/Ymweliadau Addysgol [Deddf Addysg 1998]

Polisi'r Ysgol ar ryddhad rhag talu:

Mae polisi llawn corff llywodraethol ysgol ar Godi Tâl a Rhyddhad rhag talu ar gael gan Bennaeth ysgol eich plentyn.

Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ryddhad rhag talu:

Y disgyblion sydd â hawl i gael rhyddhad rhag talu yw'r rhai hynny y mae eu rhieni yn cael Cymorth Incwm neu Lwfans Chwilio am Waith ar Sail Incwm. Pan fo teuluoedd yn cael Credyd Treth Plentyn, dim ond rhieni sydd ag incwm blyneddol y tŷ o dan y lefel a osodwyd gan y Trysorlys at ddiben y Ddeddf Credyd Treth sy'n gymwys. Hawlir rhyddhad ar gyfer chostau llety a chynhaliadau yn unig.

Y teithiau/ymweliadau ysgol fyddai'n cyfiawnhau rhyddhad llawn rhag talu costau llety a chynhaliadau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r rhai sy'n:

- i) digwydd yn ystod yr oriau ysgol fel y diffinnir;
- ii) fel rhan o ddarpariaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ran o'r ddyletswydd i ddarparu addysg grefyddol;
- iii) darparu rhan o Faes Llafur arholiad cyhoeddus a gydnabyddir a rhaid i hyn fodloni rheolau a gofynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am deithiau ysgol.

[Mae rhyddhad o gostau llety a chynhaliadau am deithiau/ymweliadau sy'n digwydd o fewn oriau ysgol fel y diffinnir uchod ond nad yw'n cyflawni'r meini prawf uchod, i'w benderfynu gan y Llywodraethwyr. Dylai rhieni gysylltu â'r Pennaeth.]

Ychwanegiadau Disgresiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gall disgyblion sydd â hawl i gael rhyddhad lleiafswm statudol, gael eu gwahodd o dro i dro i gynrychioli eu hysgol neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar daith gyfnewid dramor neu gymryd rhan mewn cyrsiau maes neu anturiaethau arbennig neu weithgareddau chwaraeon / diwylliannol. O dan yr amgylchiadau hynny mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu rhoi ystyriaeth ddisgresiwn i achosion unigol o'r fath. Ystyrir hefyd geisiadau am ymweliadau i Ganolfannau Iaith ac Awyr Agored sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor.

Mae manylion am y drefn hawlio rhyddhad ar gael gan benaethiaid ysgolion a byddwn yn ymdrin ag ymholiadau yn gyfrinachol. Gwneir ceisiadau trwy'r pennaeth i'w prosesu gan Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg).

Presenoldeb Ysgol

Mae mynychu'r ysgol yn bwysig. Rhaid i rieni ofyn am ganiatâd ar gyfer pob absenoldeb, gan gynnwys gwyliau yn ystod y tymor, trwy gysylltu â'r ysgol i ofyn am 'ffurflen cais absenoldeb'. Mae angen cwblhau hyn a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn unrhyw absenoldeb.

Mae rhestr o'r holl ddyddiadau tymor /gwyliau ar gael ar ein gwefan: <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Education-and-Families/School-Holiday-Dates.aspx>.

Dim ond ysgol all awdurdodi absenoldeb. Nid oes gan rieni na'r ALI y pwerau i awdurdodi absenoldeb. Pan fo plentyn o oedran ysgol statudol yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd, mae ei rieni'n euog o drosedd (Deddf Addysg 1996, A.444, Rhan VI Ch. II). Os cyflawnir trosedd mae gan yr ALI nifer o bwerau i gynnwys hysbysiadau cosb sefydlog, erlyniad yn y llys ynadon neu geisio Gorchymyn Goruchwyllo Addysg trwy'r llys teulu, i fynd i'r afael â materion presenoldeb.

Mae'r Gyfraith yn cynghori nad oes gan rieni hawl i fynd â'u plentyn / plant allan o'r ysgol am wyliau yn ystod y tymor. Mae Hysbysiadau Cosb Addysg yn ddirwyon cosb sefydlog a roddir i riant mewn perthynas ag absenoldebau anawdurdodedig eu plant o'r ysgol.

Mae mwy o fanylion ar gael ar ein gwefan: <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Education-and-Families/Schools/Education-Penalty-Notices.aspx>

Arholiadau a Phroffion Cyhoeddus

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yn unol â chynghor Penaethiaid ac mewn ymgynghoriad â rheini, yw trefnu i ddisgyblion sefyll arholiadau allanol. Mae Llawlyfrau'r ysgol yn cynnwys rhestr o'r cyrsiau arholiad a gynigir a gwybodaeth am ganlyniadau. Bydd gan y Llywodraethwyr bolisi ynghylch codi tâl am ail-sefyll arholiadau. Mae mwy o fanylion ar gael gan Benaethiaid.

Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY@conwy.gov.uk)

Nod Cynghor Bwrdeistref Sirol Conwy yw cynnig darpariaeth addysgol briodol o safon uchel i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Nod yr Awdurdod Lleol yw cefnogi a galluogi pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni'r cynnydd mwyaf posibl yn eu haddysg. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod anghenion pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n briodol a bod addysg effeithiol o safon uchel yn cael ei darparu iddynt.

Lle bynnag bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau bod darpariaeth o'r fath ar gael yn lleoliad addysg y plentyn neu berson ifanc, fodd bynnag, pan nad yw hyn yn bosibl, ac nad yw er lles gorau'r plentyn/person ifanc, caiff darpariaeth/leoliadau arbenigol eu cynnig trwy broses asesu a chymedroli amlasiantaeth. Trwy adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn barhaus a rheolaidd, mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio diwallu anghenion newidiol plant a phobl ifanc Conwy mewn modd effeithiol a chadarnhaol.

Gall pobl ifanc a rhieni/gofalwyr gael cynghor a rhagor o wybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol gan eu hysgol, lleoliad neu goleg, gan swyddogion yn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol neu o wefan yr Awdurdod Lleol.

Mae dogfen sy'n cynnwys manylion llawn am bolisi a threfniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gael ar gais, neu o wefan yr Awdurdod Lleol. Mae polisi'r Awdurdod Lleol yn seiliedig ar 'Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018' a'r 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol' a rheoliadau cysylltiedig.

Egwyddorion

Mae'r egwyddorion sy'n ategu'r system ADY newydd yng Nghymru yn ceisio cefnogi creu system addysg gwbl gynhwysol lle caiff pob dysgwr gyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion a'u galluogi i gyfranogi mewn dysgu, elwa ohono a'i fwynhau.

Yr egwyddorion sy'n ategu'r system newydd yw:

- (a) *Dull sy'n seiliedig ar hawliau, lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i broses gynllunio a darparu cefnogaeth; a chaiff y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc eu galluogi i gyfranogi mor llawn ag sy'n bosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau a bydd ganddynt hawliau gwirioneddol i herio penderfyniadau am ADY, DDY a materion cysylltiedig.*
- (b) *Nodi, ymyrryd ac atal cynnar, lle caiff anghenion eu nodi, a chaiff darpariaeth ei rhoi ar waith cyn gynted ag sy'n bosibl, a lle bo'n bosibl, caiff ymyriadau eu rhoi ar waith i atal datblygiad neu ddwysâd ADY.*

- (c) *Cydweithio ac integreiddio lle mae gwasanaethau'n cydweithio er mwyn sicrhau bod ADY yn cael eu nodi'n gynnar a bod cefnogaeth gydlynol a phriodol yn cael ei rhoi ar waith er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau cadarnhaol.*
- (d) *Addysg gynhwysol lle caiff y mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY eu cefnogi i gyfranogi'n llawn mewn addysg prif ffrwd a lle dilynir dull lleoliad cyfan o ran diwallu anghenion dysgwyr ag ADY.*
- (e) *System ddwyieithog lle caiff pob cam rhesymol eu cymryd i ddarparu DDY trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chwmpas ar gyfer cynyddu darpariaeth DDY trwy gyfrwng y Gymraeg dros amser.*

Cyfrifoldeb Ysgolion Prif Ffrwd

Mae ysgolion yn gyfrifol am gynhwysiant a darpariaeth addysgol pob disgybl, a darpariaeth ddysgu ychwanegol plant a phobl ifanc sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) Ysgol.

Mae ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer nodi, ymyrryd ac atal cynnar, ac atgyfeirio plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol lle bo'n briodol. Bydd y mwyafrif o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn llawn a'u cefnogi gan eu hysgol gartref.

Mae'n rhaid i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru ddynodi unigolyn, neu fwy nag un unigolyn, fydd â chyfrifoldeb dros gydlyn darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Caiff yr unigolyn (neu unigolion) hwnnw ei alw'n gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol, neu Gydlynnydd ADY.

Mae'n arfer da i ysgolion fod â Pholisi Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n seiliedig ar y Cod a rheoliadau newydd. Mae templed polisi ar gael gan y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dylid integreiddio Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob polisi ac arfer arall o fewn yr ysgol hefyd.

Polisi Iaith a Dwyieithrwydd

Cyd-destun Cenedlaethol

Mae dogfennau Llywodraeth Cymru megis Iaith Pawb (2003) a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) yn nodi hawl pob plentyn yng Nghymru fedru'r Gymraeg.

Dywed "Iaith fyw: iaith byw" - Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru:

"Gweledigaeth Iaith Pawb yn 2003 oedd creu Cymru ddwyieithog. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 yn adeiladu ar y trosolwg a geir yn 'Iaith Pawb.'"

Gweledigaeth Strategaeth Llywodraeth Cymru yw:

- cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg;
- cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg;
- defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.

Dylid gosod sylfeini cadarn yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn y sector nas gynhelir ac yn yr ysgolion. Yn y cyfnodau allweddol eraill, mae angen strategaeth glir er mwyn datblygu gafael y disgybl beth bynnag eu cefndir ieithyddol i ddatblygu eu gafael ar y Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.

Cyd-destun Conwy

Yn Strategaeth Iaith Sir Conwy mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddyheadau Llywodraeth Cymru i gynyddu yn barhaus y niferoedd a'r canrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae Gwasanaethau Addysg y Sir yn gosod nod uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Rydym am annog balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Conwy a Chymru.

Yn dilyn arolwg mesur y galw am Addysg Gymraeg ar draws Conwy mae'r Sir wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth yn flynyddol.

Amcanion Cyffredinol

Amcan y Polisi iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, mae angen parhau i feithrin sgiliau'r disgyblion beth bynnag eu cefndir ieithyddol.

Disgwylir i holl sefydliadau Addysg y Sir weithredu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Amcan cyffredinol y polisi yw dwyieithrwydd. Y nod yw sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr yn cael y symbyliad addysgol i feithrin sgiliau a hyder ieithyddol yn y ddwy iaith er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw penodi athrawon cymwys i addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a pholisi iaith Conwy.

Ceir cyfleoedd i fynychu hyfforddiant iaith a methodoleg er mwyn uwch sgilio holl staff ysgol. Disgwylir i Lywodraethwyr a Thîm Rheoli'r ysgol hybu a chefnogi staff i fynychu hyfforddiant pellach a drefnir gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg ynghyd â Chynllun Sabothol Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor.

Categoriâu Ysgolion

Mae holl ysgolion cynradd ac uwchradd Conwy wedi'u diffinio gan gategori, a gwellir gweld eu manylion yn yr adran Rhestr Ysgolion o'r ddogfen hon.

Yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a Strategaeth Gymraeg y Sir disgwylir i'r ysgolion categori 2 - 5 gynyddu eu darpariaeth Gymraeg fydd yn eu galluogi i symud fyny'r categorïau o fewn amser penodol. Disgwylir hefyd i ddisgyblion Sir ddilyn yr un continwm iaith o un cyfnod allweddol i'r llall.

Canolfan Iaith Conwy

Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiad yng Nghanolfan Iaith y Sir am un tymor ysgol. Dilynir cwrs sydd wedi ei strwythuro'n ofalus er mwyn hyrwyddo rhuglder ar lafar yn ogystal â meithrin sgiliau darllen ac ysgrifennu fel y gallent integreiddio'n rhwydd yn ôl yn eu hysgolion ar ddiwedd y cyfnod.

Addysg Arbennig

Yn achos disgyblion gydag anawsterau dysgu, bydd y Pennaeth mewn ymgynghoriad â Gwasanaethau Addysg CBS Conwy, yn ystyried pob achos yn unigol.

Gweithredu Polisi Iaith

Pwrpas y polisi hwn yn cyflwyno crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar benaethiaid, staff a llywodraethwyr mewn perthynas â gweithredu polisi iaith y sir.

Disgwylir i bob pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r staff a'r corff llywodraethol, adolygu polisi iaith yr ysgol yn rheolaidd, fydd yn adlewyrchu'r polisi hwn.

Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau llwyddiant y polisi iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion staff yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig briodol yn yr ysgol.

Monitro Gweithrediad y Polisi

Bydd gweithrediad y polisi yn cael ei fonitro ar ran yr Awdurdod gan GwE a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg fel rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau.

Mae'r polisi ar gael o Wasanaethau Addysg CBS Conwy a llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae polisiâu ysgolion unigol ar gael yn llawlyfrau'r ysgolion. Ffoniwch 01492 575 003 am wybodaeth am y Polisi iaith Gymraeg.

Gweithdrefn Cwynion

Os yw rhiant yn anfodlon a gwasanaeth a dderbynnir gan ysgol, dylai'r rhiant yn y lle cyntaf gysylltu â'r Pennaeth i drafod eu pryderon. Gellir delio a llawer o bryderon yn gyflym ac yn effeithiol trwy ystyriaeth anffurfiol, yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth neu staff eraill yn yr ysgol. Dyma'r cam rhesymol cyntaf, ac oni bai bod yr amgylchiadau'n eithriadol, byddai Corff Llywodraethol ysgol yn disgwyl i'r cam hwn gael ei gwblhau cyn cyflwyno cwyn ffurfiol.

Mae gan Gyrff Llywodraethu pob ysgol a gynhelir gweithdrefnau ar gyfer delio a chwynion sy'n ymwneud a'r ysgol ac nid oes gan awdurdodau esgobaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rôl statudol wrth ddatrys cwynion am ysgolion - y Llywodraethwyr sydd a'r cyfrifol statudol am hyn.



RHESTR YSGOLION

Rhoddir isod fanylion am yr ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae pob ysgol yn ysgol ddyddiol gydaddysgol, er bod darpariaeth breswyl i rai disgyblion yn Ysgol y Gogarth.

Rhoddir manylion am yr ysgolion ynghyd â dosbarthiad yr ysgol gan ddefnyddio byfodau a ganlyn:

Categori	
CC	Ysgol Gynradd Cymunedol
CWR	Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Reolaeth
CWN	Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth
CS	Ysgol Gynradd Sylfaenol
(I)	Ysgol Plant Iau
(B)	Ysgol Plant Babanod
(E)	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru
(C)	Ysgol Babyddol
(GP)	Ysgol Gymraeg Penodedig
UC	Ysgol Uwchradd Cymunedol
US	Ysgol Uwchradd Sylfaenol

Categori	Llywodraeth Cymru – Ysgolion wedi’u diffinio yn unol â’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, categorïau Cynradd:
1	Cyfrwng Cymraeg
2	Cyfrwng dwy ffrwd
3	Trosiannol: cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o’r Saesneg
4	Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o’r Gymraeg
5	Cyfrwng Saesneg yn bennaf

Llywodraeth Cymru - Ysgolion wedi’u diffinio yn unol â’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, categorïau CYNRADD				
Categori	Cwricwlwm	Iaith yr Ysgol	Deilliannau	Ysgolion
Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg: Categori 1	Mae holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn pob maes dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw’r prif gyfrwng dysgu yn y cyfnod iau gydag o leiaf 70% o’r dysgu yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol fel pwnc yn CA2 ac fe’i dysgir trwy gyfrwng y Saesneg, ac efallai y bydd Saesneg yn cael ei defnyddio weithiau ar gyfer rhai agweddau o rai pynciau.	Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir Cymraeg fel iaith i gyfathrebu gyda disgyblion ac ar gyfer gweinyddu’r ysgol.Mae’r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith.	Y disgwyliad arferol yw bod disgyblion, beth bynnag yw iaith y cartref, yn medru trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd Gymraeg ei chyfrwng ac erbyn diwedd y cyfnod iau byddant wedi cyrraedd safon i’r lefel gyfatebol Saesneg a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion sy’n bennaf yn rhai cyfrwng Saesneg. Asesir pob disgybl yn yr iaith Gymraeg 1af, ac eithrio’r asesiad Saesneg.	Ysgol Betws y Coed Ysgol Betws yn Rhos Ysgol Bod Alaw Ysgol Bro Aled Ysgol Bro Cernyw Ysgol Bro Gwydir Ysgol Capel Garmon Ysgol Cerrigydrudion Ysgol Dolwyddelan Ysgol Dyffryn yr Enfys Ysgol Eglwysbach Ysgol Glan Morfa Ysgol Llanddoged Ysgol Llangelynnin Ysgol Llanefydd Ysgol Morfa Rhianedd Ysgol Pencae Ysgol Pentrefoelas Ysgol Penmachno Ysgol Ysbyty Ifan
Ysgol Gynradd Dwy Ffrwd: Categori 2	Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Mae rhieni/disgyblion yn dewis naill ai darpariaeth sy’n bennaf Gymraeg neu sy’n bennaf Saesneg sy’n cael eu cyflwyno fel a nodir yng nghategoriau 1 a 5, fel rheol.	Defnyddir y Gymraeg a’r Saesneg ym musnes beunyddiol yr ysgol. Pennir iaith cyfathrebu gyda’r disgyblion gan natur y ddarpariaeth gwricwlaidd, ond mewn rhai ysgolion rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos iaith Gymraeg trwy’r ysgol. Mae’r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.	I ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg, mae’r disgwyliadau arferol yr un fath ag ar gyfer categori 1. I ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg, mae’r disgwyliadau yr un fath ag ar gyfer categori 5. Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg. Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail Iaith.	Ysgol Awel y Mynydd
Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: Cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o’r Saesneg Categori 3	Mae ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o’r meysydd dysgu gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Defnyddir y naill iaith a’r llall i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg, sy’n gyfrwng addysgu ar gyfer dros hanner a hyd at 70% o’r cwricwlwm. (Dim ond dros dro y byddai ysgolion yn y categori hwn fel arfer).	Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni yn y naill iaith a’r llall.	Fel rheol, disgwylir y bydd rhai o’r disgyblion, yn enwedig y rheini o gartrefi Cymraeg eu hiaith, yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y bydd pob disgybl, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, wedi cyrraedd yr un safon yn y Saesneg â’r safon a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg. Y nod fydd i bob disgybl gael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg. Y nod yw bydd yr ysgol mewn amser (4 blynedd) yn symud i ysgol categori 1, Cyfrwng Cymraeg.	
Ysgol sy’n bennaf yn Saesneg ei chyfrwng ond gyda defnydd arwyddocaol o’r Gymraeg: Categori 4	Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn derbyn meysydd dysgu yn y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar y Saesneg. Yn y cyfnod iau, defnyddir y Gymraeg a’r Saesneg wrth ddysgu ond mae mwy o bwyslais ar Saesneg. Defnyddir Cymraeg fel cyfrwng dysgu neu addysgu ar gyfer rhwng 20% a 50% o’r cwricwlwm cynradd o ben i ben.	Pennir iaith neu ieithoedd beunyddiol yr ysgol gan gyd-destun ieithyddol yr ysgol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith.	Y disgwyliad cyffredin yw y bydd disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd Saesneg ei chyfrwng ond bydd ganddynt sgiliau uwch Cymraeg fel ail iaith. Bydd rhai disgyblion yn medru dilyn nifer cyfyngedig o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwchradd lle cynigir hyn. Bydd pob disgybl Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail Iaith.	Ysgol Babanod Llanfairfechan Ysgol Bodafon Ysgol Capelulo Ysgol Craig y Don Ysgol Cynfran Ysgol Deganwy Ysgol Ffordd Dyffryn Ysgol Glanwydden Ysgol Glan Conwy Ysgol Pant y Rhedyn Ysgol Porth y Felin Ysgol San Siôr Ysgol Talhaiarn Ysgol Tudno
Ysgol gynradd sy’n bennaf Saesneg ei hiaith: Categori 5	Mae’r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn derbyn meysydd dysgu yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg. Saesneg yw’r prif gyfrwng dysgu yn y cyfnod iau. Dysgir y Gymraeg fel ail iaith yn y cyfnod iau, a gellir dysgu rhai agweddau o rai pynciau yn y Gymraeg. Mae llai nag 20% o’r dysgu yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg.	Saesneg yw iaith busnes beunyddiol yr ysgol, ond defnyddir peth Cymraeg hefyd fel iaith i gyfathrebu gyda disgyblion gyda’r nod o wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â rhieni naill ai yn Saesneg neu’r ddwy iaith.	Y disgwyliad cyffredin yw bod disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth Saesneg ei chyfrwng ac yn parhau i ddysgu’n bennaf trwy gyfrwng Saesneg, gan ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Bydd pob disgybl Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail Iaith. Yr amcan yw na fydd yr un ysgol yng Nghonwy gydag amser yng Nghategori 5, yn unol â Strategaeth y Gymraeg Mewn Addysg 2014 – 2017, o fewn yr amser penodol a gytunwyd rhwng GwE a Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg.	Ysgol Babanod Mochdre Ysgol Bendigaid William Davies Ysgol Cystennin Ysgol Glan Gele Ysgol Hen Golwyn Ysgol Llanddulas Ysgol Llandrillo yn Rhos Ysgol Maes Owen Ysgol Nant y Groes Ysgol Pen y Bryn Ysgol Sant Elfod Ysgol St George Ysgol St Joseph Ysgol Sŵn y Don Ysgol T. Gwynn Jones Ysgol Y Foryd Ysgol Y Plas

Llywodraeth Cymru - Ysgolion wedi’u diffinio yn unol â’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, categorïau UWCHRADD				
Categori	Cwricwlwm	Iaith yr Ysgol	Deilliannau	Ysgolion
Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg: Categori 1	Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.	Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir Cymraeg fel iaith i gyfathrebu gyda disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol.Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith.	Fel rheol, disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4 ac y bydd y disgyblion yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 cyfrwng Cymraeg. Bydd pob disgybl yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.	Ysgol Y Creuddyn
Ysgol Uwchradd Ddwyieithog: Categori 2	Mae’r categori hwn wedi ei rannu’n 4 is adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw’n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw’r categorïau a’r diffiniadau yn adlewyrchu nifer gyfran y disgyblion sy’n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i’r cyrff llywodraethu roi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prosbectws faint o ddisgyblion sy’n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael. Categori 2A - Addysgir o leiaf 80% o’r pynciau ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg drwy gyfrwng y Gymaeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o’r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a’r llall. Categori 2B – Addysgir o leiaf 80% o’r pynciau (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe’u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. Categori 2C – Addysgir 50 – 79% o bynciau (ac eithrio’r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe’u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. Categori 2CH – Addysgir pob pwnc (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio’r naill iaith a’r llall.	Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill a’r llall i gyfathrebu â’r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni yn y ddwy iaith.	Ar gyfer disgyblion yng nghategoriâu 2A, 2B a 2C sy’n dilyn y nifer uchaf posib o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg. Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail iaith.	Ysgol Dyffryn Conwy
Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond a defnydd sylweddol o’r Gymraeg: Categori 3	Addysgir y naill iaith a’r llall, ac addysgir 20 – 49% o’r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.	Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a’r llall i gyfathrebu â’r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni naill ai yn y ddwy iaith, neu yn Saesneg.	Fel rheol, disgwylir y gallai’r disgyblion hynny sy’n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac y byddant, o bosibl, yn gallu symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar ôl 16. Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail iaith.	
Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf: Categori 4	Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at diwedd CA4. Mae’n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy ddefnyddio’r ddwy iaith	Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â’r disgyblion gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae’r ysgol yn cyfathrebu â’r rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y ddwy iaith.	Fel rheol, disgwylir y gallai unrhyw ddisgyblion sy’n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae’n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio’r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae’n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio’r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16. Byddai’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg yn y rhan fwyaf o bynciau a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16. Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu mewn Saesneg ond bydd eu hasesiad Cymraeg mewn Cymraeg Ail iaith.	Ysgol Aberconwy Ysgol Bryn Elian Ysgol Eirias Ysgol Emrys ap Iwan Ysgol John Bright

Ysgolion Cynradd / Primary Schools

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynedid Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Abergele								
Ysgol Babanod Glan Gele Ffordd y Morfa, Abergele LL22 7NU ☎ 01745 823584 ✉ pennaeth@glangele.conwy.sch.uk 💻 www.glangele.conwy.sch.uk	Mrs Julia Buckley Jones	CC (B) 5	3-7	80	242	85	0	240
Ysgol Glan Morfa Ffordd y Morfa, Abergele LL22 7NU ☎ 01745 832922 ✉ pennaeth@glanmorfa.conwy.sch.uk 💻 www.glanmorfa.conwy.sch.uk	Mr Hugh Rhys-Williams	CC (GP) 1	3-11	37	260	32	0	217
Ysgol Iau Sant Elfod Ffordd y Morfa, Abergele LL22 7NU ☎ 01745 832007 ✉ pennaeth@santelfod.conwy.sch.uk 💻 www.santelfod.conwy.sch.uk	Mr Gwynne Vaughan	CC (I) 5	7-11	75	300	68	0	293
Bae Colwyn/Colwyn Bay								
Ysgol Bod Alaw Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 7ST ☎ 01492 530420 ✉ pennaeth@bodalaraw.conwy.sch.uk 💻 www.bodalaraw.conwy.sch.uk	Mr Dafydd Rhys	CC (GP) 1	3-11	45	315	46	0	262
Ysgol Pen-y-Bryn Wentworth Avenue, Colwyn Bay LL29 6DD ☎ 01492 531260 ✉ pennaeth@penybryn.conwy.sch.uk 💻 www.ysgolpenybryn.com	Ms Tabitha Sawyer	CS 5	3-11	59	414	51	0	404

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Ysgol Nant y Groes Greenfield Road, Bae Colwyn LL29 8ET ☎ 01492 577010/577011 ✉ pennaeth@nantygroes.conwy.sch.uk	Mr Huw Tudur Jones	CC 5	3-11	45	316	35	0	290
Ysgol Sant Joseff Brackley Avenue, Bae Colwyn, LL29 7UU ☎ 01492 532394 ✉ pennaeth@santjoseph.conwy.sch.uk 💻 www.santjoseph.conwy.sch.uk	Mr James Wilkinson	CWN (C) 5	3-11	30	210	24	4(3)	199
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos Elwy Road, Llandrillo-yn-Rhos LL28 4LX ☎ 01492 549648 ✉ pennaeth@llandrillo.conwy.sch.uk 💻 www.llandrillo.conwy.sch.uk	Mrs Gaynor Highcock	CC 5	3-11	60	423	60	4(3)	418
Bae Penrhyn/Penrhyn Bay								
Ysgol Glanwydden Ffordd Derwen, Bae Penrhyn LL30 3LB ☎ 01492 540798 ✉ pennaeth@glanwydden.conwy.sch.uk 💻 www.glanwydden.ik.org	Mrs Elaine Gelling	CC 4	3-11	41	287	44	0	282
Betws y Coed								
Ysgol Betws-y-Coed Bro Gethin, Betws-y-Coed LL24 0BP ☎ 01690 710581 ✉ pennaeth@betwsycoed.conwy.sch.uk	Mrs Nia Jones-Artell	CC 1	3-11	14	100	3	0	26

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Betws yn Rhos								
Ysgol Betws-yn-Rhos Betws-yn-Rhos, Abergelle LL22 8AP ☎ 01492 680603 ✉ pennaeth@betwsynrhos.conwy.sch.uk	Mrs Carys Welsbury	CWR (E) 1	3-11	11	77	9	0	59
Capelulo								
Ysgol Capelulo Ffordd Treforus, Penmaenmawr, LL34 6RA ☎ 01492 622693 ✉ pennaeth@capelulo.conwy.sch.uk 💻 www.capelulo.conwy.sch.uk	Mrs Glenda Owen	CC 4	3-11	19	133	22	0	136
Capel Garmon								
Ysgol Capel Garmon Capel Garmon, Llanrwst LL26 0RL ☎ 01690 710287 ✉ pennaeth@capelgarmon.conwy.sch.uk 💻 www.capelgarmon.conwy.sch.uk	Mrs Nia Jones-Artell	CC 1	3-11	6	46	1	0	17
Cerrigydrudion								
Ysgol Cerrigydrudion Ffordd Alwen, Cerrigydrudion, Corwen LL21 9SW ☎ 01490 420328 ✉ pennaeth@uwchaed.conwy.sch.uk 💻 www.ysgolcerrig.ik.org	Mrs Eirlys Edwards	CC 1	3-11	12	85	7	0	70

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Conwy								
Ysgol Porth-y-Felin Ffordd Llanrwst, Conwy LL32 8FZ ☎ 01492 572220 ✉ pennaeth@porthyfelin.conwy.sch.uk 💻 www.porthyfelin.kk.org	Mr Paul Thomas	CWR (E) 4	3-11	46	323	48	4(4)	313
Cyffordd Llandudno/Llandudno Junction								
Ysgol Awel y Mynydd Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ ☎ 01492 577100 💻 www.ysgolawelymynydd.co.uk	Mr Geraint Evans	CC 2	3-11	65	459	56	0	412
Deganwy								
Ysgol Deganwy Park Drive, Deganwy LL31 9YB ☎ 01492 574600 ✉ pennaeth@deganwy.conwy.sch.uk 💻 www.deganwy.conwy.sch.uk	Mrs Hâf Williams	CC 4	3-11	39	273	40	0	289
Dolgarrog								
Ysgol Dyffryn yr Enfys Conway Road, Dolgarrog, Conwy LL32 8QE ☎ 01492 660216 ✉ pennaeth@dyffrynyrenfys.conwy.sch.uk	Mrs Karen Lloyd Owen	CC 1	3-11	17	120	19	0	103

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Dolwyddelan								
Ysgol Dolwyddelan Dolwyddelan, LL25 0SZ  01690 750293  pennaeth@dolwyddelan.conwy.sch.uk  www.dolwyddelan.conwy.sch.uk	Mrs Nia Jones-Artell	CC 1	3-11	8	59	4	0	28
Eglwysbach								
Ysgol Eglwysbach Eglwysbach, Bae Colwyn LL28 5UD  01492 650463  pennaeth@eglwysbach.conwy.sch.uk  www.ysgogleglwysbach.co.uk	Mrs Nia Daly	CWR (E) 1	3-11	9	69	7	0	70
Glan Conwy								
Ysgol Glan Conwy Top Llan, Glan Conwy, Bae Colwyn LL28 5ST  01492 580421  pennaeth@glanconwy.conwy.sch.uk  www.glanconwy.conwy.sch.uk	Mrs Eifiona Price Williams	CC 4	3-11	21	147	17	0	116
Hen Golwyn/Old Colwyn								
Ysgol Babanod T. Gwynn Jones Llanelian Road, Hen Golwyn LL29 9UA  01492 516594  pennaeth@tgwynnjones.conwy.sch.uk  www.tgwynnjones.ik.org	Miss Tania Rickard	CC (B) 5	3-7	60	181	49	0	161

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Ysgol Iau Hen Golwyn Church Walks, Hen Golwyn LL29 9RU ☎ 01492 516258 ✉ pennaeth@iauhengolwyn.conwy.sch.uk 💻 www.hengolwyn.conwy.sch.uk	Mr Robert Paul Jones	CC (I) 5	7-11	54	218	61	0	233
Henryd								
Ysgol Llangelynnin Henryd, Conwy LL32 8YB ☎ 01492 592898 ✉ pennaeth@llangelynnin.conwy.sch.uk 💻 www.ysgolllangelynnin.lk.org	Mr Gwil Prydderch	CWR (E) 1	3-11	14	101	10	0	84
Llanddoged								
Ysgol Llanddoged Llanddoged, Llanrwst LL26 0BJ ☎ 01492 640363 ✉ pennaeth@llanddoged.conwy.sch.uk	Mr Gareth Davies	CWR (E) 1	3-11	13	97	3	0	32
Llanddulas								
Ysgol Llanddulas Ffordd Minffordd, Llanddulas LL22 8EW ☎ 01492 516865 ✉ pennaeth@llanddulas.conwy.sch.uk 💻 www.ysgolllanddulas.co.uk	Mr Paul Davies	CWR (E) 5	3-11	18	131	18	0	138
Llandudno								
Ysgol Tudno Trinity Avenue, Llandudno LL30 2SJ ☎ 01492 875252 ✉ pennaeth@tudno.conwy.sch.uk 💻 www.tudno.conwy.sch.uk	Mrs Iona M. Hughes	CC 4	3-11	32	226	23	0	176

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Ysgol Ffordd Dyffryn Ffordd Dyffryn, Llandudno LL30 2LZ ☎ 01492 878907 ✉ pennaeth@fforddyffryn.conwy.sch.uk 💻 www.fforddyffryn.conwy.sch.uk	Mrs Susan Roberts	CC 4	3-11	28	199	21	0	169
Ysgol Craig y Don Clarence Drive, Craig y Don, Llandudno, LL30 1TR ☎ 01492 878906 ✉ pennaeth@craigydun.conwy.sch.uk 💻 www.craigydun.conwy.sch.uk	Mr Iwan Jones	CC 4	3-11	52	366	32	0	306
Ysgol Bodafon Bodafon Road, Llandudno LL30 3BA ☎ 01492 547996 ✉ pennaeth@bodafon.conwy.sch.uk 💻 www.ysgolbodafon.moonfruit.com	Mr Trystan Lloyd Owen	CWN (E) 4	3-11	15	108	7	0	85
Ysgol Bendigaidd William Davies Bodnant Crescent, Llandudno LL30 1LL ☎ 01492 875930 ✉ pennaeth@bwilliamdavs.conwy.sch.uk	Mrs Lucy Phillips	CWN (C) 5	3-11	25	179	11	0	98
Ysgol Morfa Rhianedd Cwm Road, Llandudno LL30 1EG ☎ 01492 577150 ✉ pennaeth@mrhianedd.conwy.sch.uk 💻 www.morfarhianedd.conwy.sch.uk	Mr Gethin Mon Jones	CC (GP) 1	3-11	24	170	18	0	149
Ysgol San Siôr Church Walks, Llandudno LL30 2HL ☎ 01492 878149 ✉ pennaeth@sansior.conwy.sch.uk	Mr Ian Keith Jones	CWN (E) 4	3-11	30	212	30	3(0)	212

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Llanelian								
Ysgol y Plas Llanelian yn Rhos, Bae Colwyn LL29 8YY ☎ 01492 680601 ✉ pennaeth@yplas.conwy.sch.uk 💻 www.ysgolypas.co.uk	Mrs Gwawr Mills	CWN (E) 5	3-11	12	85	9	0	74
Llanfairfechan								
Ysgol Pant y Rhedyn Penmaenmawr Road, Llanfairfechan LL33 0PA ☎ 01248 680642 ✉ pennaeth@pantyrhedyn.conwy.sch.uk 💻 www.pantyrhedyn.conwy.sch.uk	Mr Matthew Jones	CC (I) 4	7-11	43	173	41	0	157
Ysgol Babanod Llanfairfechan Pentref Road, Llanfairfechan LL33 0AA ☎ 01248 680289 ✉ pennaeth@babllanfairf.conwy.sch.uk 💻 www.babanodllanfairfechan.ik.org	Mr Matthew Jones **	CWR (E) (B) 4	3-7	30	92	31	0	85
Llanfairtalhaiarn								
Ysgol Talhaiarn Stryd yr Eglwys, Llanfairtalhaiarn, Abergele LL22 8SD ☎ 01745 720242 ✉ pennaeth@llanfairtalh.conwy.sch.uk 💻 www.llanfairtalh.conwy.sch.uk	Mrs Llinos Mevel	CC 4	3-11	8	60	6	0	48
Llangernyw								
Ysgol Bro Cernyw Pen y Bont, Llangernyw, Conwy, LL22 8PP ☎ 01745 860238 ✉ pennaeth@brocernyw.conwy.sch.uk 💻 www.cynnal.co.uk/einbro/brocernyw	Mrs Sioned Green	CC 1	3-11	14	98	17	0	81

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Llanefydd								
Ysgol Llanefydd Llanefydd, Dinbych LL16 5EA  01745 540228  pennaeth@llanefydd.conwy.sch.uk  www.llanefydd.conwy.sch.uk	Mr Gari Evans	CC 1	3-11	11	78	2	0	9
Llanrwst								
Ysgol Bro Gwydir Heol Watling, Llanrwst LL26 0EY  01492 640342  pennaeth@brogwydir.conwy.sch.uk  www.ysgolbrogwydir.org	Mrs Bethan Jones	CC 1	3-11	44	311	41	0	305
Llansannan								
Ysgol Bro Aled Waen Fawr Isaf to Cae Goronwy, Llansannan, Conwy, LL16 5HN  01745 870660  pennaeth@broaled.conwy.sch.uk	Miss Einir Jones	CC 1	3-11	13	94	11	0	66
Llysfaen								
Ysgol Cynfran Dolwen Road, Llysfaen, Bae Colwyn LL29 8SS  01492 517326  pennaeth@cynfran.conwy.sch.uk  www.cynfran.conwy.sch.uk	Mr Owen Rogers	CC 4	3-11	30	212	25	0	174

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Mochdre								
Ysgol Babanod Mochdre Station Road, Mochdre, Bae Colwyn LL28 5EF  01492 540194  pennaeth@mochdre.conwy.sch.uk	Mrs Rhian Jones	CC (B) 5	3-7	26	81	17	0	45
Ysgol Cystennin Mochdre, Bae Colwyn LL28 5AU  01492 540068  pennaeth@cystennin.conwy.sch.uk		CC (I) 5	7-11	20	82	20	0	84
Penmachno								
Ysgol Penmachno Penmachno, Betws-y-Coed LL24 0PT  01690 760394  pennaeth@penmachno.conwy.sch.uk	Mrs Bethan Davies	CC 1	3-11	8	56	2	0	40
Penmaenmawr								
Ysgol Pencae Graiglwyd Road, Penmaenmawr LL34 6YG  01492 622219  pennaeth@pencae.conwy.sch.uk  www.pencae.conwy.sch.uk	Mr Owain Ellis	CWR (E) 1	3-11	26	183	17	0	117
Penmaenrhos								
Ysgol Swyn y Don Swyn y Don, Hen Golwyn, Bae Colwyn, LL29 9LL  01492 577290  pennaeth@swnydon.conwy.sch.uk	Ms Bernadette Thomas	CC 5	3-11	21	149	15	0	114

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No	Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Pentrefoelas								
Ysgol Pentrefoelas Pentrefoelas, Betws-y-Coed LL24 0LE  01690 770226  pennaeth@pentrefoelas.conwy.sch.uk  www.cynnal.co.uk/einbro/pentrefoelas	Mr Rhodri Evans	CC 1	3-11	10	71	7	0	39
San Siôr/St George								
Ysgol San Siôr San Siôr, Primrose Hill, Abergele LL22 9BU  01745 833213  pennaeth@stgeorge.conwy.sch.uk  www.stgeorge.conwy.sch.uk	Mr Andrew Roberts	CWR (E) 5	3-11	10	71	9	0	65
Towyn								
Ysgol Babanod y Foryd Morfa Avenue, Foryd, Towyn, Rhyl LL18 5LE  01745 351892  pennaeth@yforyd.conwy.sch.uk  www.yforyd.co.uk	Ms Nicola Rowlands	CC (B) 5	3-7	67	201	29	0	141
Ysgol Maes Owen Morfa Avenue, Foryd, Towyn, Rhyl LL18 5LE  01745 353721  pennaeth@maesowen.conwy.sch.uk  www.towyn.conwy.sch.uk	Mrs Catrin Foulkes	CC (I) 5	7-11	66	265	67	0	247
Ysbyty Ifan								
Ysgol Ysbyty Ifan Ysbyty Ifan, Betws-y-Coed LL24 0NY  01690 770645  pennaeth@ysbytyifan.conwy.sch.uk	Mrs Nia Jones	CWR (E) 1	3-11	5	40	2	0	12
* Amcanion yw'r ffigyrau hyn wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd (Gorffennaf 2021) (Ffynhonnell: Ystadegau Ebrill 2021) ac nid ydynt yn cynnwys niferoedd Meithrin. <i>These figures are approximate and based on information available at the time of collation (July 2021) (Source: April 2021 statistics) and do not include Nursery figures.</i>								

Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No		Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake (Blwyddyn 7 yn unig / Year 7 only)	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
				Bl/Yr 7-11	Bl/Yr 12				
Ysgol Aberconwy Morfya Drive, Conwy LL32 8ED ☎ 01492 593243 ✉ pennaeth@aberconwy.conwy.sch.uk 💻 www.aberconwy.conwy.sch.uk	Mr Ian Gerrard	UC	11-18	204	112	1244	193	0	911
Ysgol Bryn Eliau Windsor Drive, Hen Golwyn LL29 8HU ☎ 01492 518215 ✉ dh@bryneliau.conwy.sch.uk 💻 www.bryneliau.conwy.sch.uk	Mr Dave Humphries	US	11-18	170	91	1037	164	12(4)	957
Ysgol Dyffryn Conwy Ffordd Nebo, Llanrwst LL26 OSD ☎ 01492 642800 ✉ pennaeth@dyffrynconwy.conwy.sch.uk 💻 www.ysgoldyffrynconwy.org	Mr Owain Gethin Davies	UC	11-18	128	87	813	94	0	608
Ysgol Eirias Eirias Road, Bae Colwyn LL29 7SP ☎ 01492 532025 ✉ general@eirias.conwy.sch.uk 💻 www.eirias.co.uk	Mrs Sarah Sutton	US	11-18	239	152	1497	214	0	1335
Ysgol Emrys ap Iwan Faenol Avenue, Abergele LL22 7HE ☎ 01745 832287 ✉ info@emrysapiwan.conwy.sch.uk 💻 www.emrysapiwan.conwy.sch.uk	Mrs Sue Williams	US	11-18	202	93	1196	157	0	971

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	Rhif Mynediad Admission No		Rhif Capasiti Capacity No	Derbyniadau 2020-2021 Intake (Blwyddyn 7 yn unig / Year 7 only)	Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals (nifer ganiatawyd / no or places granted)	Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
				Bl/Yr 7-11	Bl/Yr 12				
Ysgol John Bright Maesdu Road, Llandudno LL30 1LF ☎ 01492 864200 📧 general@johnbright.conwy.sch.uk 💻 www.johnbright.conwy.sch.uk	Mrs Ann Webb	UC	11-18	259	87	1469	157	0	1208
Ysgol y Creuddyn Ffordd Dderwen, Bae Penrhyn, Llandudno LL30 3LB ☎ 01492 544344 📧 pennaeth@creuddyn.conwy.sch.uk 💻 www.creuddyn.co.uk	Mr Trefor Jones	UC (GP)	11-18	118	62	716	119	0	625

* Amcanion yw'r ffigurau hyn wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd (Gorffennaf 2021) (Ffynhonnell: Ystadegau Ebrill 2021) ac maent yn cynnwys niferoedd Ôl-16. These figures are approximate and based on information available at the time of collation (July 2021) (Source: April 2021 statistics) and include Post-16 figures.

Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol/Additional Learning Needs School

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range	*Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils
Ysgol y Gogarth Ffordd Nant y Gamar, Craig y Don, Llandudno LL30 1YE ☎ 01492 860077 ✉ pennaeth@gogarth.conwy.sch.uk 🌐 www.ysgol-y-gogarth.com	Mr Jonathan Morgan	AAA Generig/ Generic SEN	2-19	243

* Amcanion yw'r ffigyrau hyn wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd (Gorffennaf 2021) (Ffynhonnell: Ystadegau Ebrill 2021).
 These figures are approximate and based on information available at the time of collation (July 2021 (Source: April 2021 statistics)).

Gwasanaeth Ymgynnwys Cymdeithasol / Social Inclusion Service

Pennaeth UCD / PRU Headteacher: Mr Gwyn Owen

Ysgol School	Pennaeth Headteacher	Statws Status	Oedran Age Range
Canolfan Addysg Y Ddraig Goch Llwynon Road, Llandudno, LL30 2QF ☎ 01492 575280 ✉ ysgolyddraiggoch@csis.conwy.sch.uk	Mr Gareth Hywel Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher	Uned Cyfeirio / PRU	7-11
Canolfan Addysg Penrhos Avenue Penrhos Avenue, Colwyn Bay LL29 9HW ☎ 01492 514925 ✉ penrhosave@csis.conwy.sch.uk	Ms Kelly Marfell Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher	Uned Cyfeirio / PRU Addysg Gartref / Home Tuition	11-16 7-16
Canolfan Addysg Penmaenrhos Education Centre Penmaenrhos Education Centre, Craig Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9HN ☎ 01492 577279 ✉ penmaenrhos@csis.conwy.sch.uk	Mr Tommy Bell-Hughes Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher	Uned Cyfeirio / PRU	11-14
Canolfan Addysg Nant y Bryniau Education Centre Gwasanaeth Pobl Ifanc Gogledd Cymru/ North Wales Adolescent Service Safle Ysbyty Abergele Hospital Site Llanfair Road, Abergele LL22 8DP ☎ 01745 448742 ✉ pennaeth@nwas.conwy.sch.uk	Kate Wright Athrawes Mewn Gofal Dros Dro/ Acting Teacher in Charge	Awdurdod Iechyd/ Health Authority	11-18